**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

25 Gorffennaf 2019

Annwyl Llywydd,

**Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2019**

Yn unol â'r canllawiau, rwy'n eich hysbysu y bydd Adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 10 paragraff 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n cyflwyno'r rheol y bydd offerynnau statudol yn dod i rym o leiaf 21 diwrnod o ddyddiad eu gosod, yn cael ei thorri er mwyn gallu cyflwyno Rheoliadau Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio)  (Rhif 2) 2019. Amgaeir y Memorandwm Esboniadol i chi er gwybodaeth.

Yn dilyn yr achosion diweddar o'r Gwyfyn Ymdeithiwr y Derw yng Nghymru, bydd y Gorchymyn yn rhoi mwy o reolaeth dros fewnforio planhigion sydd â risg uchel o bosibl o wledydd ble y mae'n gyffredin. I sicrhau y gallwn weithredu ar unwaith i reoli'r risg o ragor o fewnforio ac i sicrhau bod ein rheoliadau yn cyd-fynd â gweddill Prydain Fawr, mae wedi dod yn angenrheidiol i dorri'r rheol 21 niwrnod. Mae'n rhaid i'r rheoliadau presennol ar gyfer y plâu gael eu cryfhau yn dilyn nifer o achosion o'r gwyfyn yng Nghymru a Lloegr.

Gosododd yr Alban eu Hofferyn Statudol cyfatebol ar 12 Gorffennaf a daeth i rym ar 16 Gorffennaf. Gosododd Lloegr eu Hofferyn Statudol cyfatebol ar y 15fed Gorffennaf a daeth i rym ar yr un diwrnod. Daeth offeryn statudol tebyg, sy'n diwygio Gorchymyn Iechyd Anifeiliaid (Coedwigaeth) 2005 fel y mae'n berthnasol i Gymru, i rym ar 19 Gorffennaf 2019.

Bydd torri'r rheol 21 niwrnod yn caniatáu i'r Gorchymyn ddod i rym yn gyflym i gynyddu bioddiogelwch ac i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yng Nghymru yn cyd-fynd â gweddill Prydain. Mae'n angenrheidiol felly, a gellir cyfiawnhau torri'r rheol 21 niwrnod yn yr achos hwn.

Mae Memorandwm Esboniadol wedi'i baratoi ac wedi'i osod, gyda'r Gorchymyn, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac at Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau a'r Siambr.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd